# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

# DATGANIAD CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL

.

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwario tua £300 miliwn y flwyddyn gyda sefydliadau yn y sector preifat a'r trydydd sector ar y nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith y mae gofyn eu cael er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

1.2 Mae'r dulliau y mae sefydliadau llywodraeth leol yn eu defnyddio ar gyfer caffael yn newid. Yn y gorffennol, mae'n bosibl bod canolbwyntio penodol wedi bod ar edrych ar gaffael gan sicrhau arbedion ariannol. Rydyn ni bellach yn symud i ffwrdd o'r ymagwedd draddodiadol o werthuso prisiau ac ansawdd yn unig, tuag at sicrhau bod deilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesol yn cael eu hystyried yn rhan o bob proses gaffael. A ninnau'n Awdurdod Lleol, bydd gofyn i ni barhau i fod yn ofalus gydag arian cyhoeddus a cheisio sicrhau 'gwerth am arian'. O hyn ymlaen, fodd bynnag, bydd disgwyl i ni hefyd geisio cynnwys ffactorau eraill sy'n atgyfnerthu'r gwaith o gyflawni deilliannau cynaliadwy sydd o fudd i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

1.3 Rhaid sicrhau bod arferion moesegol, teg a chyfrifol ar waith trwy gydol y broses gaffael ac yn ein cadwyni cyflenwi. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fod yn agored, yn dryloyw, ac yn deg o ran pawb. Er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl wrth gontractio â sefydliadau allanol, mae'n hanfodol ein bod ni'n cyflawni gwerth cymdeithasol, yn lleihau ein Hôl Troed Carbon, ac yn cefnogi busnesau lleol i dendro yn rhan o'r broses gaffael.

## 2. NODAU

2.1 Mae'r dyletswyddau caffael sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn dechrau gyda dyletswydd gyffredinol ar yr awdurdodau sy'n contractio gwaith i geisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd drwy gyflawni caffael cyhoeddus mewn modd cymdeithasol gyfrifol. Mae hyn yn golygu cymryd camau at ddibenion cyflawni'r nodau llesiant a'r nod gwaith teg (y 'nodau caffael cymdeithasol gyfrifol'), a hyn yn rhan o gynifer o brosesau contractio â phosibl.

2.2 Yn y polisi yma, mae'r fframwaith cyffredinol ar gyfer cyflawni'r nodau caffael cymdeithasol gyfrifol, yn cael ei nodi.

## 3. BLAENORIAETHAU AC AMCANION LLESIANT Y CYNGOR

3.1 Cytunodd y Cyngor ar ei flaenoriaethau corfforaethol newydd yn y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024-30, 'Gweithio gyda'n Cymunedau' yn ei gyfarfod ar 24 Ebrill 2024. Cytunodd y Cyngor hefyd mai'r pedair blaenoriaeth gorfforaethol yma fydd amcanion llesiant y Cyngor. Rhaid i'r Cyngor osod y rhain yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.2 Dyma weledigaeth, pwrpas a blaenoriaethau'r Cyngor:

**Gweledigaeth** y Cyngor yw sicrhau bod Rhondda Cynon Taf yn lle sy'n caniatáu'r canlynol:
*"Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."*

Dyma fwriad y Cyngor a'r **rheswm** dros ei fodolaeth:
*"Rhoi arweinyddiaeth gymunedol a chynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel, gan weithio'n ochr yn ochr â thrigolion, cymunedau a'n partneriaid er mwyn i'n pobl, busnesau, a'r amgylchedd allu ffynnu.*

Dyma Flaenoriaethau **Corfforaethol** ac Amcanion **Llesiant** y Cyngor:




3.3 Yn Strategaeth Gaffael y Cyngor mae 3 prif thema yn cael ei nodi; maen nhw'n fodd o ddangos sut y bydd y Gwasanaeth yn gymorth o ran cyflenwi'r Cynllun Corfforaethol. Ymhlith y themâu mae camau gweithredu at ddibenion gofalu bod arfer gorau ar waith, a gofalu hefyd bod trin mewn modd moesegol a theg ar waith. Felly hefyd sicrhau bod gweithgareddau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ar waith gan gynnwys lleihau ein hôl troed carbon a gwireddu gwerth cymdeithasol, a bod hyn oll yn cael ei fonitro drwy broses rheoli contractau wydn.

## 4. FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO CAFFAEL

4.1 Mae'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol a ganlyn yn berthnasol i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae manylion ynghylch y rhain ar gael drwy ddilyn y dolenni yma:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddf Gaffael 2023
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

## 5. FFRAMWAITH 'ARFERION MOESEGOL' Y CYNGOR

**Cyflogaeth Foesegol a Gwaith Teg**

5.1 Y nod o ran Y Cod Ymarfer – Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yma yw atgyfnerthu datblygiad cadwyni cyflenwi mwy moesegol sy'n cyflenwi contractau ar gyfer sector cyhoeddus Cymru. Mae pob sefydliad sector cyhoeddus yn cael ei wahodd i ymuno â'r Cod. Yn yr un modd mae busnesau yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu hannog i weithio'n unol ag e. Y nod o ran y Cod yw sicrhau bod gweithwyr yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus yn cael eu cyflogi'n foesegol ac yn unol â geiriau ac ysbryd deddfau'r DU a deddfau rhyngwladol. Mae yn y cod 12 ymrwymiad sydd wedi'u cynllunio at ddibenion dileu caethwasiaeth fodern a sicrhau arferion cyflogaeth foesegol.

5.2 Yn 2023 daeth y Cyngor yn gyflogwr cyflog byw, wedi'i achredu, ac mae hyn yn cael ei ymestyn hefyd i'n cadwyni cyflenwi ac mae'r cymalau perthnasol wedi'u nodi ym mhob tendr.

5.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau safon uchel o arferion masnach foesegol, ar hyd ystod ei weithrediadau caffael. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'w gyflenwyr, darparwyr gwasanaeth a chontractwyr gadw at ymrwymiadau'r cod, gan ddangos hefyd ymrwymiad tebyg i raglen barhaus o sicrhau a, lle bo angen, gwella arferion moesegol yn lleol ac yn ehangach.

5.4 Bydd y Cyngor yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau ei fod yn caffael yr holl nwyddau, gwaith a gwasanaethau mae angen amdanyn nhw. Bydd yn gwneud hyn mewn modd moesegol yn ôl dull y Cyngor o gaffael ac o ran y safonau rydyn ni'n disgwyl i'n cyflenwyr, darparwyr gwasanaethau a chontractwyr eu cyrraedd.

**Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**

5.5 Mae gyda'r Cyngor ymagwedd dim goddefgarwch tuag at Gaethwasiaeth Fodern o ran ei gadwyn gyflenwi. Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae'r Cyngor, ac yntau'n gyflogwr, yn cydnabod bod ganddo gyfrifoldeb i fod yn effro i achosion posibl o gaethwasiaeth fodern ac i roi gwybod am achosion neu bryderon o'r fath i'r cyrff perthnasol.

5.6 Yn rhan o'i brosesau tendro a chontractio, bydd y Cyngor yn ceisio sicrwydd gan ddarpar gyflenwyr bod ganddyn nhw brosesau addas a chadarn ar waith at ddibenion lliniaru risgiau sy'n gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern yn y sefydliad. Bydd y Cyngor yn disgwyl i gyflenwyr fod yn gyfrifol am ofyn am sicrwydd tebyg gan eu cadwyni cyflenwi eu hunain.

**Chwythu'r chwiban**

5.7 Mae gyda'r Cyngor Bolisi a Gweithdrefn Chwythu'r Chwiban ar waith. O ran y polisi yma, cyfeirio mae'r gair 'gweithwyr' at bawb sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor a hefyd, y sefydliadau hynny sy'n darparu gwasanaethau i'r Cyngor – h.y. Gweithwyr, Contractwyr a Chyflenwyr.

5.8 Mae'r Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban yma i annog gweithwyr i roi gwybod am bryder, a'u hannog i wneud hynny, yn hytrach nag anwybyddu'r broblem. Y Bwriad o ran y Polisi a'r Weithdrefn Chwythu'r Chwiban yw mynd i'r afael â chamweddau difrifol, megis:

- defnyddio adnoddau neu arian cyhoeddus mewn modd anghyfreithlon, llwgr neu afreolaidd,
- unrhyw fath o ymddygiad sy'n achosi perygl difrifol i iechyd y cyhoedd, i ddiogelwch, i'r amgylchedd neu o ran cynnal y gyfraith,
- unrhyw dramgwydd troseddol,
- esgeulustod neu gamreoli difrifol gan swyddogion cyhoeddus

**Diogelu Corfforaethol**

5.9 Yn sgil trefniadau Diogelu Corfforaethol y Cyngor mae fframwaith ar waith ar gyfer pob Gwasanaeth sydd yn y Cyngor, gan gynnwys y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan sefydliadau trydydd parti ar ran y Cyngor. Yn y Polisi yma mae cyfrifoldebau yn cael eu nodi o ran diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl, a dulliau o wirio bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau.

## 6. CYNGOR CARBON NIWTRAL

6.1 Mae rhaid i'r Cyngor leihau ei ôl troed carbon ar hyd ystod pob gweithgaredd er mwyn gwireddu ei uchelgais o fod yn garbon niwtral. Mae cyfran fwyaf yr ôl troed carbon yn y Cyngor yn gysylltiedig â nwyddau a'r gwasanaethau sy'n cael eu caffael.

6.2 Yn y Strategaeth Gaffael mae'r prif gamau yn cael eu nodi o ran yr hyn fydd yn helpu i lywio adolygu a lleihau'r ôl troed carbon sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau wedi'u caffael.

## 7. CAFFAEL YN LLEOL

**Hysbysiad Polisi Caffael Cymru 07/21 caffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig.**

7.1 Ym Mholisi Caffael Cymru 07/21 mae amlinelliad o sut y dylai awdurdodau contractio fod yn gefn i Fusnesau Bach a Chanolig. Mae sylw'n cael ei roi ynddo i'r Siarter Agor Drysau i Gaffael sy'n gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau), ac mae'n adeiladu ar yr egwyddorion sydd i'w gweld yn y siarter.

7.2 Mae'r Cyngor yn parhau i groesawu'r cyfle i weithio gyda BBaChau lle bo hynny'n ymarferol bosibl. Mae'r Cyngor yn gwneud hyn trwy sicrhau bod yna broses deg, agored a thryloyw ar waith sydd ddim yn gwahaniaethu yn erbyn BBaChau.

7.3 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ofalu bod cyfle cyfartal ar gyfer BBaChau yn sgil pob proses. Er mwyn annog hyn, mae Cyfeirlyfr Busnesau Lleol wedi'i ddatblygu. Mae'n fodd o roi gwybod i fusnesau lleol ynghylch unrhyw gyfleoedd o ran tendro neu gontract, addas, fel y maen nhw'n dod i'r fei.

## 8. CYFLAWNI GWERTH CYMDEITHASOL

8.1 Mae'r gofyniad o ran datblygu trefniadau cadarn i sicrhau 'gwerth cymdeithasol' a gweithredu'r rhain yn rhan o drefniadau contractio'r Cyngor, yn thema allweddol yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru).

8.2 Ar gyfer pob tendr â gwerth dros £75,000, mae'r Cyngor wedi datblygu set o fesurau gwerth cymdeithasol safonol i'w cynnwys ym mhob tendr perthnasol ac wedi'u mapio yn unol â Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r mesurau yma wedi'u datblygu a'u dewis i adlewyrchu rhai o anghenion penodol y Cyngor a'r cymunedau y mae'n gefn iddyn nhw.

8.3 Mae adnoddau ar waith at ddibenion monitro deilliannau Gwerth Cymdeithasol ac adrodd ar y rhain.